Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cynllunio Creu Coetir

## Ffurflen Hawlio

## Sut i Gwblhau

## CYNNWYS


**DEFNYDDIO RPW AR-LEIN I WNEUD CAIS .......... 3**
Gwybvfodaeth Bwysig .......... 3
**ADRAN 1 – DECHRAU ARNI .......... 4**
RPW Ar-lein .......... 4
Hafan .......... 5
**ADRAN 2 – TROSOLWG O REOLAETHAU DEWIS .......... 6**
**ADRAN 3 – YR HAWLIAD .......... 7**
Dechrau Cais .......... 7
Cyflwyniad .......... 8
Hysbysiad Preifatrwydd .......... 9
Manylion yr Hawliad – Hawlio’r Cynllun Creu Coetir .......... 10
How to Claim .......... 10
**ADRAN 4 – CRYNODEB O’R HAWLIAD .......... 12**
**SECTION 5 – CYFLWYNO .......... 13**
Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb .......... 13
Datganiadau ac Ymrwymiadau .......... 14
Tudalen Gyflwyno .......... 15
**SECTION 6 – BETH I’W WNEUD WEDI CYFLWYNO LLWYDDIANNUS .......... 16**
Dogfennau Ategol .......... 16


© Hawlfraint y goron 2024 Digidol ISBN: 978-1-83577-389-5

# DEFNYDDIO RPW AR-LEIN I WNEUD CAIS

## GWYBVFODAETH BWYSIG

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ar sut i hawlio'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.


Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu'r canllaw hwn yn Gymraeg a Saesneg fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os oes angen copi o'r canllaw hwn arnoch yn yr iaith amgen, gallwch ei gyrchu o llyw.cymru drwy newid yr iaith ar frig y dudalen ac ailagor y ddogfen.

Os ydych yn cael problemau neu'n methu cael mynediad i'n gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth Ar-lein RPW ar 0300 062 5004.

## ADRAN 1 – DECHRAU ARNI

### RPW AR-LEIN

Mewngofnodi i'ch Cyfrif Ar-lein RPW - nodwch eich **ID a Chyfrinair Defnyddwyr Porth y Llywodraeth** yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi.**





Os ydych yn cael problemau neu'n methu cael mynediad i'ch cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth Ar-lein RPW ar 0300 062 5004.


Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein, bydd tudalen Hafan Ar-lein RPW yn ymddangos. Bydd y dudalen hon yn dangos gwybodaeth a negeseuon rydych wedi'u derbyn neu eu hanfon, yn ogystal â gallu dechrau a chyflwyno unrhyw Geisiadau sydd ar gael.

## HAFAN

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein bydd tudalen 'Hafan' RPW Ar-lein yn ymddangos.




Yn yr adran **Dechrau Ffurflen** ar ddiwedd yr dudalen Hafan, cliciwch ar y ddolen hawlio berthnasol.



# ADRAN 2 – TROSOLWG O REOLAETHAU DEWIS


Dyma drosolwg o’r rheolaethau Dewis ar bob tudalen fydd angen ichi eu defnyddio wrth gwblhau eich Cais:

| | |
|---|---|
| Cymraeg English | Ar ochr chwith isaf y dudalen lle bo hynny'n berthnasol. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddewis yr iaith y mae eich cais yn cael ei arddangos ynddi. |
| Help | Ar ochr chwith uchaf pob tudalen lle bo hynny'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn mynd â chi i'r ddogfen *Defnyddio RPW Ar-lein i Wneud Cais* ar gyfer y cynllun. |
| Yn ôl  Nesaf | Ar ochr dde uchaf ac isaf pob tudalen lle bo hynny'n berthnasol, bydd y botymau hyn yn caniatáu ichi symud yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau eich Cais. |
| Printio | Ar waelod chwith pob tudalen lle bo hynny'n berthnasol, bydd y botwm hwn yn caniatáu ichi argraffu ciplun o'ch Cais yn ei gyflwr cyfredol. **Nodyn pwysig**: Ni dderbynnir copïau printiedig o'ch cais i'w cyflwyno. |
| Safio | Ar ochr dde uchaf ac isaf pob tudalen lle bo hynny'n berthnasol, cliciwch y botwm hwn i arbed unrhyw newidiadau a wnaed. Bydd clicio y botwm hwn hefyd yn gwirio i weld a yw'r newidiadau a wneir yn dderbyniol. |
| Gadael | Wedi'i leoli ar waelod chwith pob tudalen lle bo hynny'n berthnasol, cliciwch i adael eich cais. Mae newidiadau'n cael eu cadw'n awtomatig. |
| [tick, cross and info icons] | Mae'r tic gwyrdd yn ymddangos pan fydd cofnodion a wneir mewn adran yn dderbyniol.<br><br>Mae'r groes goch yn ymddangos lle nad yw adran/tudalen ofynnol wedi'i gweld eto, neu os oes gwallau y mae angen eu cywiro.<br><br>Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn ymddangos lle mae neges Wybodaeth wedi'i sbarduno oherwydd newid a wnaed ar y ffurflen. |

## ADRAN 3 – YR HAWLIAD

### DECHRAU CAIS

Ar ôl dewis y ddolen berthnasol i ddechrau hawlio’r Cynllun Cynllunio Creu Coetir, fe welwch y dudalen isod.




Cyn dechrau edrychwch i weld a yw’r manylion yn gywir. Os oes angen, cewch wneud newidiadau trwy glicio ar y ddolen **Manylion Cwsmer** neu ar y ddolen **Dewisiadau Ar-lein**.


Os yw’r manylion yn gywir, dewiswch y botwm **Dechrau**. Bydd hyn yn mynd â chi I’r sgrîn Cyflwyno.

Noder: Os fyddwch yn gadael Cais ar ei ganol, caiff y newidiadau eu harbed i barhau yn nes ymlaen. Bydd y dudalen hon yn newid i **Parhau â Chais** pan ddowch yn ôl. Bydd opsiwn ychwanegol i ail-ddechrau eich Cais os oes angen – cliciwch **Dechrau Eto** i ddileu eich Cais gyfredol. Yna cewch ddechrau y broses gyflwyno eto.

**CYFLWYNIAD**

Dyma'r dudalen gyflwyno sy'n rhoi gwybodaeth am yr Hawliad.

Mae hefyd yn darparu dolenni i Ganllawiau perthnasol y Cynllun a Chanllawiau Sut i Gwblhau ar wefan Llywodraeth Cymru.





Unwaith y byddwch wedi darllen a deall y canllawiau a ddarperir, cliciwch **Nesaf** i fynd ymlaen i sgrîn nesaf y Cais.



# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd yw ble rydym yn nodi eich hawliau a beth y gallai fod angen inni ei wneud gyda'ch gwybodaeth er mwyn prosesu eich cais. Rhaid i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd.





Unwaith y byddwch wedi darllen yr wybodaeth cliciwch y botwm **Nesaf**.



## MANYLION YR HAWLIAD – HAWLIAD PLAN CREU COETIR


Ar y tab hwn, byddwch yn dangos a ydych am hawlio am arwynebedd eich Plan Creu Coetir, ac am unrhyw arolygon arbenigol a fydd wedi'u cynnal ynghylch y Plan.





Pwysig: os na chafodd arolygon arbenigol eu cynnal ar gyfer y Plan, ni fydd y rhan hon yn ymddangos ar eich ffurflen hawlio.

## SUT I HAWLIO

**Hawliad Plan Creu Coetir** – ticiwch y blwch i hawlio'r swm a ddangosir





**Hawliad Arolwg Arbenigol** – cliciwch **Addasu** i agor tudalen manylion hawliad yr Arolwg




Dangoswch a ydych am hawlio am yr arolwg yn y gwymplen




Os byddwch yn dewis *Byddaf,* bydd rhagor o gwestiynau'n ymddangos. Bydd angen ichi ateb pob cwestiwn





Ar ôl eu hateb, cliciwch **Safio**




Os oes gennych fwy nag un arolwg i'w hawlio, ewch trwy'r un broses ag uchod eto. Pan fydd sgrin Manylion yr Hawliad wedi'i chwblhau, cliciwch ar **Nesaf**

## ADRAN 4 – CRYNODEB O'R HAWLIAD

Rydym wedi crynhoi gwerthoedd eich hawliad ar y dudalen hon, a'u capio i hyd at £5000.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf**.



# SECTION 5 – CYFLWYNO

## CAMGYMERIADAU, GWYBODAETH A CHRYNODEB

Ceir crynodeb o fanylion eich Hawliad ar y dudalen hon.





Os oes unrhyw gamgymeriadau ar eich ffurflen hawlio, byddant yn cael eu nodi ar y dudalen hon ynghyd â disgrifiad o'r gwall. Gallwch fynd yn ôl i dudalennau blaenorol eich Cais i wirio a chywiro problemau drwy ddewis y botwm Yn ôl neu ddewis y dudalen briodol ar yr ochr chwith (croes goch yn dynodi tudalen gyda gwall).

Unwaith y byddwch wedi gwirio'r crynodeb a chywiro unrhyw wallau cliciwch ar y Botwm **Nesaf**.




## DATGANIADAU AC YMRWYMIADAU

Pan fydd yr holl gamgymeriadau wedi eu datrys, gallwch symud ymlaen i'r dudalen cadarnhau **Datganiadau ac Ymrwymiadau**. Sicrhewch eich bod wedi darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau yn ofalus ac yn eu deall yn iawn cyn cyflwyno eich Hawliad.




Unwaith y byddwch wedi darllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau bydd angen ichi dicio’r blwch **Rwyf yn cytuno i’r Datganiadau a’r Ymrwymiadau uchod**.





Cliciwch ar y Botwm **Nesaf** i fynd ymlaen i’r dudalen Cyflwyno.




## TUDALEN GYFLWYNO

I gyflwyno eich Hawliad am Waith Sylfaen cliciwch ar y Botwm **Cyflwyno**.




Unwaith y byddwch wedi cyflwyno, fe welwch y dudalen Cadarnhau Cyflwyno y mae modd ichi ei brintio ar gyfer eich cofnodion eich hun, trwy ddewis y botwm **Printio'r Sgrin hon**.




Gallwch nawr ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** i fynd yn uniongyrchol i'ch tudalen Negeseuon yn RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael**.

**Sylwer**: Unwaith y bydd y cais wedi'i gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau rydych wedi'u dewis.

## SECTION 6 – BETH I'W WNEUD WEDI CYFLWYNO LLWYDDIANNUS

Bydd crynodeb o'ch Hawliad gorffenedig yn cael ei ychwanegu at y dudalen Negeseuon ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl **Dogfennau a dderbyniwyd gan RPW**. Sicrhewch eich bod yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynir yn drylwyr. Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth a ddangosir yn anghywir, atebwch y neges yn rhoi manylion eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y byddwch yn darganfod unrhyw wybodaeth anghywir.

Am ganllawiau ar sut i ddefnyddio eich tudalen Negeseuon, ewch i RPW Ar-lein | Is-bwnc | LLYW.CYMRU:-

- Dewiswch y ddolen **Sut i ddefnyddio RPW Ar-lein** o'r ddewislen ar yr ochr dde.

- Dewiswch naill ai *Cwsmeriaid, Asiantau/Undebau Ffermio neu Asiantau/Undebau Ffermio sy'n gweithredu ar ran Cwsmer*, yna dewiswch **Negeseuon** o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.

### DOGFENNAU ATEGOL

Os hoffech gyflwyno unrhyw ddogfennau ategol ar-lein, dylech ddefnyddio eich tudalen **Negeseuon**. Atodwch eich holl ddogfennau ategol i'r un neges hon fel y gellir ei rheoli o dan un Rhif Cyfeirnod Neges.